

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 7fed, 2017 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Thomas Prys Jones; Angela Williams; Aled Davies; Ceri Jones; Tegid Jones; Sion Aled Jones a'r Clerc.

1. Croesawyd y Cynghorydd newydd Mr Sion Aled Jones, Dolafon, Llanystumdwy.
2. Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd gan y Cynghorydd Sion Aled Jones.
3. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sian Angharad Parry a Naomi Jones.
4. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor. Cadarnhawyd bod Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog am gynrychioli'r Cyngor, y Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen.
5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Orffennaf 6ed, 2017 gydag un ychwanegiad, mae'r Cynghorydd Aled Lloyd Evans hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.
6. Arwyddwyd cadarnhad taliad BACS gan y Cadeirydd.
7. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen heblaw bod rhyddid i'r Cynghorwyr Sian Angharad Parry a Sion Aled Jones ddewis pa Bwyllgorau y maent eisiau bod arnynt.
8. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
9. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; B4411 Troadau Pont Rhydybenllig. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud mai barn y Cyngor Sir yw nad yw'r coed ar dir preifat sy'n gyfochrog â'r bont ar y troadau yn creu niwsans na rhwystriad i led ymarferol y briffordd na pherygl i ddefnyddwyr y briffordd yn unol ag Adran 79 Deddf Priffyrdd 1980.
 2. Tim Teithio Llesol Cyngor Gwynedd, ymgynghoriad cyhoeddus. Penderfynwyd os oes rhywun eisiau gwneud sylw i gysylltu gyda'r Clerc.
 3. Cefnogaeth Gorfforaethol; Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy. Daeth llythyr yn dweud y byddai'r toiledau yn cau am byth ar Hydref 1af am nad oedd y Cyngor yma am roi £2000- i'r Cyngor Sir tuag at gostau rhedeg y toiled. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i'w hatgoffa o benderfyniad y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 mai'r rheswm am beidio cefnogi oedd nad oedd y toiled i fyny i safon ac y byddai'r Cyngor o bosib yn ail ystyried os y gwneid y gwelliannau angenrheidiol. Yn dilyn hyn daeth cadarnhâd bod y Cyngor Sir am osod basn golchi dwylo yn adran y dynion ac am baentio'r adeilad. O ddeall hyn penderfynodd y Cyngor yma i roi £2000- i Gyngor Gwynedd tuag at gostau rhedeg y toiled yn dymhorol ar yr amod bod y gwaith yma yn cael ei wneud.
 4. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn; Adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Penderfynwyd derbyn.
 5. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn; Hysbysiad ynglŷn â Mabwysiadu C D LI ar y cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026. Derbyniwyd er gwybodaeth.
 6. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cau'r ffordd Dosbarth 111 gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Bryn Afon, Pencaenewydd, gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro. Derbyniwyd er gwybodaeth.

10. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:

1. Cais Rhif C17/0668/41/LL – Estyniad ochr; Bwthyn Soar, Llanarmon. Cefnogi.
2. Cais Rhif C17/0654/41/LL – Cais llawn ôl-weithredol ar gyfer cadw gwaith o drosi adeilad traddodiadol yn ystafell gerddoriaeth, ystafell gyfrifiadur a storfa (defnydd domestig); Ty'n Rhos Penarth, Chwilog. Cefnogi.
3. Cais Rhif C17/0662/41/LL – Trosi allandy traddodiadol yn lety gwyliau hunan gynhaliol ynghyd a chodi adeilad i'w ddefnyddio fel clwydfan ystlumod; Ty'n Rhos Penarth, Chwilog. Cefnogi.
4. Cais Rhif C17/0652/41/HY – Arddangos arwyddion; Tyddyn Morthwyl, Rhoslan. Gwrthwynebu ar sail maint yr arwydd, mae hynny o Gymraeg sydd arno yn llai na'r gweddill, bod hyn yn dibrisio'r iaith Gymraeg; fydd y datblygiad ddim yn *brand new* mewn blwyddyn; mae'r arwydd yn ei le yn barod cyn i'r cais gael ei drafod!
5. Cais Rhif C17/0712/41/LL – Cais i godi estyniad ochr; Ger y Ffynnon, Llanybi. Cefnogi.
6. Cais Rhif C17/0743/41/LL – Codi estyniad; Nant y Glyn, Chwilog. Dim gwrthwynebiad.
7. Cais Rhif C17/0643/41/LL – Dymchwel estyniadau presennol a newid siap to yr eiddo a chodi to pits uwchben y gegin bresennol; Dolwar, Rhoslan. Dim gwrthwynebiad.
8. Cais Rhif C17/0613/41/LL – Cais i estynnu cwrtil presennol yr eiddo ac i godi modurdy/storfa; Cefn Helyg, Llanybi. Dim gwrthwynebiad.
9. Cais Rhif: C17/0565/41/LL – Cais i godi tŷ deulawr farchnad agored; tir at Bro Sion Wyn, Chwilog; 2 gynllun diwygiedig. Unwaith eto gwrthwynebu ar sail maint y tŷ, byddai'n well cael dau dŷ llai i'w gosod.

Anfonwyd y sylwadau uchod ar sail yr ymatebion gafwyd gan rai Cyngorwyr ac yna ymgynghori gyda'r Cadeirydd ac mae angen eu cadarnhau. Cadarnhawyd y penderfyniadau

10. Cais Rhif: C17/0798/41/LL – Cais i ddymchwel modurdy presennol a chodi llety gwyliau a car port; Maes y Caerau, Rhoslan. Dim gwrthwynebiad.
11. Cais Rhif: C17/0830/41/LL – Newid defnydd i lety gwyliau; Parc Wernol Caravan Park, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.
*Trwy ganiatad y Cadeirydd:
12. Cais Rhif: C17/0752/41/LL – Estyniad a balconi; Wernol, Chwilog. Cefnogwyd.

11. Cyngor Gwynedd, Adran Gynllunio, Swyddog Gorfodaeth ynghylch yr ymholiad am Winllan Rhos Ddu, Ynys. Cysylltodd y Swyddog Gorfodaeth drwy e bost i ddweud ei fod yn methu canfod yr union safle. Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Swyddog i egluro'r union leoliad.
12. Llywodraeth Cymru, Clystyru; cefnogaeth ariannol ar gael yn 2017-18. Gadawyd y llythyr yma ar y bwrdd.
13. Gohebiaeth oddi wrth Simon Thomas AC ynghylch Diweddariad Achos Polisi Cartrefi Cymunedol. Roedd Mr Thomas wedi atodi ymateb Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Llywodraeth Cymru, yn dweud bod hawl statudol gan denantiaid o dan Adran 92 Deddf Tai 1986 i gydgyfnewid gyda'i landlord. Mae'n fater i'r landlord benderfynu a ydyn nhw'n cofrestru fel rhan o'r cynllun, felly penderfyniad i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn unig yw hyn. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd ateb Simon Thomas a gofyn iddo beth yw ei farn ef ar y mater ac anfon at y Cyngorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant Cyngor Gwynedd i ofyn i'r Cyngorwyr sydd ar Fwrdd Rheoli Cartrefi

Cymunedol Gwynedd geisio dwyn perswâd i newid y polisi nôl fel roedd o cyn i Gartrefi Cymunedol Gwynedd gymeryd drosodd y stoc dai. Cyfnewid o fewn Sir Gwynedd oedd polisi Cyngor Gwynedd.

14. Un Llais Cymru:

- a. Cynnig Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer Cynhadledd 2017. Derbyniwyd y llythyr yn dweud na fyddai cynnig y Cyngor yma yn cael ei drafod yn y Gynhadledd, nad oedd yr hyn y gofynnid amdano yn gyraeddadwy sydd yn cydfynd â gohebiaeth ddiweddar Simon Thomas AC a Carl Sargeant AC, gweler cofnod 13.
- b. Dyddiadau Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Derbyniwyd er gwybodaeth
- c. Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ddydd Sadwrn, Medi 30ain yn Llanelwedd. Nid oedd neb awydd mynd eleni.

15. Llwybr Afonwen. Daeth cwyn bod llwybr Afonwen yn anodd ei dramwyo oherwydd gor dyfiant er ei fod wedi cael ei dorri ddechrau Mehefin. Cliriwyd y mieri, sylwyd bod y canclwm yn dal heb gael ei drin yng ngheg y llwybr a sylwyd bod gris wedi torri ar y grisiau ochr y traeth. Cysylltwyd gyda 'r Cyngor Sir ynghylch y canclwm unwaith eto ac ynghylch y styllen ac anfonwyd ateb at y sawl a wnaeth y gwyn. Derbyniwyd.

16. Cae Chwarae Llanybi:

- a. Adroddiad Blynyddol. Mae ambell i beth angen ei wneud ond ddim yn fater brys. Penderfynwyd gofyn am bris i gwmni GLJones, Bethesda am wneud y gwaith sydd angen ar yr offer chwarae, prisio fesul gwaith.
- b. Rhywun wedi bod yn plannu coed helyg a phŷs pêr ac ati ar hyd ochr y cae, ochr lle mae'r fainc. Adroddiad gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones. Ymddengys nad oes a bod basgedi crog wedi cael eu gosod ar y ffens. Derbyniwyd.

17. Ciosg Llanybi; cais i'r Cyngor yma brynu'r ciosg i leoli'r diffibrilwr gan y Pwyllgor Lleol. Penderfynwyd prynu'r ciosg am £1- a'r Clerc i arwyddo'r gytundeb rhwng B T a'r Cyngor yma.

18. Arwydd Maes Carafanau Tyddyn Cethin. Penderfynwyd anfon at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ofyn os oes angen caniatâd ar gyfer hwn?

19. Polisiau Cynllunio a'r Gymraeg; mater gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones. Deallir nad yw'n briodol i Alun Davies AC, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg wneud sylwadau ar apêl Cwmni Morbane (sydd wedi ei hadfer) ar gyfer datblygu tai ym Mhen y Ffridd, Bangor.

Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn anfodlon iawn o ddeall bod Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, wedi datgan mewn llythyr dyddiedig Awst 29, 2017 na "fyddai'n briodol i'r Gweinidog (Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu gydol oes) gyflwyno unrhyw sylw ar y mater, gan y byddai'n bosib drwy wneud hynny i ragfarnu safle Gweinidogion Cymru". Barn y Cyngor Cymuned yw nad yw'r datganiad hwn gan Lesley Griffiths AC yn gwneud synnwyr gan fod a wnelo'r Gymraeg a phob agwedd ar fywyd, a bod y datganiad yn dweud na ddylai'r Gweinidog sydd yn gyfrifol am y Gymraeg fod ag unrhyw ran yng ngweithdrefnau cynllunio gwlad a thref. Yn ôl ein dealltwriaeth fe gredem bod y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn ôl darpariaethau iaith Deddf Gynllunio Cymru 2015.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd anfon at Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru gyda chopi i Lesley Griffiths AC a Simon Thomas AC i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor yma gyda'r sefyllfa.

20. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Wal maes parcio Llanystumdwy. Mae rhywun wedi taro'r wal a chan fod perygl i'r cyhoedd cysylltwyd dros y ffôn, ddydd Llun Gŵyl y Banc, gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ac fe wnaed y safle yn ddiogel. Penderfynwyd anfon llythyr at Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn gofyn iddynt atgyweirio'r wal i gyd, bod craciau ynddi ac mae'n gwegian os caiff ei chyffwrdd gyda llaw.

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Coed ger Lôn Las, Llangybi. Mae coed yn tyfu allan i'r ffordd fawr sy'n golygu bod ceir sy'n parcio ger Capel Helyg yn gorfod parcio allan i'r ffordd sydd yn ei gwneud yn anodd i gerbydau fynd heibio ac yn effeithio ar welediad. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Materion Ariannol

21. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Rhoddodd y Clerc adroddiad lawn ar lafar, bod y gwariant o fewn y gyllideb, nad oes perygl o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

22. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO. Daeth gohebiaeth yn dweud eu bod wedi cwblhau eu rhan o'r archwiliad a'i bod bellach gyda'r Adolygwyr. Derbyniwyd.

23. Derbyn ad daliad TAW £505.98c. Derbyniwyd.

24. Derbyn ail daliad y Praesept gan Gyngor Gwynedd £7,500-. Penderfynwyd derbyn.

25. Anfonebau angen eu talu:

a. Criccieth Cleaning Ltd., glanhau'r llochesi bws yn chwarterol ar Orffennaf 13eg, £103- + TAW = £123.60c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 1593.

b. Mr Clifford Hughes, am dorri gwellt Cae Chwarae Llangybi ddwywaith £196-taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 58.

C Trefn am glirio dwy goeden oedd yn rhwystr ar draws llwybr Clawdd Llanw, Bontfechan, £50-, taliad BACS. Y gwaith yma wedi'i wneud ar ôl i'r Clerc ymgynghori gyda'r Is gadeirydd. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 38.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd:

Ch. Cyngor Gwynedd, Costau Etholiad, Etholiad Cyngorau Tref/Cymuned mis Mai 2017, £473-, taliad siec, rhif 100962.

Yn dilyn penderfyniad heno, cofnod rhif 17:

d. BT, pryniant ciosg Llangybi i leoli'r diffibrilwr ar ran y pwyllgor lleol, £1-, taliad siec, rhif 100963.

26. Elusen William Ellis er gwybodaeth.

Mae'r arian wedi ei ail fuddsoddi mewn Stoc y Trysorlys ar log o 6% tan Awst 25ain.2028. Derbyniwyd.

Bydd cyfarfod byr o Ymddiriedolwyr Elusen William Ellis, sef Cyngorwyr Ward Llanystumdwy ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.

